## ATODLEN

## COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL I AELODAU CYNGHORAU SIR, CYNGHORAU BWRDEISTREF SIROL A CHYNGHORAU CYMUNED, AWDURDODAU TÂN AC AWDURDODAU PARCIAU CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

# RHAN II

*Cwmpas*

### Darpariaethau Cyffredinol

**1.** Rhaid i aelodau gadw'r cod ymddygiad hwn pryd bynnag y byddant:

(a) yn cynnal busnes yr awdurdod;

(b) yn ymgymryd â rôl aelod yr etholwyd hwy neu y penodwyd hwy iddi; neu

(c) yn gweithredu fel cynrychiolwyr yr awdurdod.

**2.** Rhaid i'r cod ymddygiad hwn, oni nodir fel arall, fod yn gymwys i'r gweithgareddau hynny y mae aelod yn ymgymryd â hwy yn rhinwedd ei swydd fel aelod yn unig .

**3.** Pan fydd aelod yn gweithredu fel cynrychiolydd yr awdurdod ar gorff arall, rhaid i'r aelod hwnnw, wrth weithredu yn rhinwedd y swydd honno, gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn, oni fydd yn gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol sy'n codi yn sgî l gwasanaethu ar y corff hwnnw. Pan na fydd penodiad aelod i gorff arall yn deillio o safle'r aelod fel aelod o'r awdurdod, ni fydd y cod hwn yn gymwys i'r aelod, a fydd yn hytrach yn ddarostyngedig i god ymddygiad y corff arall. Er hynny, disgwylir i aelod felly roi sylw i egwyddorion cyffredinol ymddygiad(**1**) a pheidio â dwyn anfri ar swydd aelod nac ar yr awdurdod.

(**1**) Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001.